

Polisi Mentrau Deillio Prifysgol Aberystwyth

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i sicrhau bod canlyniadau ei haddysgu a'i hymchwil yn cael eu defnyddio er budd cymdeithas ac economi Cymru a thu hwnt. Mae'r ddogfen hon ("Polisi") yn nodi sefyllfa polisi'r Brifysgol yng nghyswllt masnacheiddio Eiddo Deallusol y Brifysgol trwy greu cwmni deillio.

Mae'r Polisi yn egluro dulliau'r Brifysgol wrth ffurfio cwmnïau deillio, gofynion a phrosesau gwneud penderfyniadau, a swyddogaethau'r Staff sy'n Sylfaenwyr y cwmni.

1. Egwyddorion y Polisi

Trwy fanteisio ar Eiddo Deallusol mae canlyniadau ymchwil yn cael eu lledaenu'n well. Mae'n cyfrannu at agenda effaith gymdeithasol ac economaidd y Brifysgol a hefyd gall gynhyrchu incwm i'r Brifysgol a'i staff. Yn benodol, mae greu cwmni deillio i fasnacheiddio Eiddo Deallusol y Brifysgol yn gallu gwneud cyfraniad pwysig i Gynllun Strategol a Chenhadaeth y Brifysgol trwy gynorthwyo arloesi mewn diwydiant a chyfrannu at dwf ein heconomi leol a'r economi ehangach.

Mae'r polisi Deillio hwn yn berthnasol i Staff a Myfyrwyr sy'n dymuno ffurfio cwmni newydd i fanteisio ar Eiddo Deallusol y mae'r Brifysgol yn berchen, neu'n gyd-berchen, arno.

Nid yw'r polisi yn berthnasol i gwmnïau newydd a ffurfir gan Staff neu Fyfrwyr, nad ydynt yn ymwneud ag Eiddo Deallusol sy'n eiddo i'r Brifysgol. I gael arweiniad a chymorth gyda mentrau o'r fath, cysylltwch â gwasanaeth gyrfaedd PA (myfyrwyr) neu ArloesiAber (staff).

Dylid darllen y Polisi Deillio hwn ar y cyd â Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol, sydd ar gael yn <https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/strategies-and-policies/>.

2. Diffiniadau

Yn y Polisi hwn, yr ystyron canlynol sydd i'r ymadroddion canlynol:

2.1	YBA	adran y Brifysgol sy'n gyfrifol am fasnacheiddio Eiddo Deallusol sef, ar hyn o bryd yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi.
2.2	Gwrthdaro Buddiannau	fel y'i diffinnir ym mholisi'r Brifysgol ar Wrthdaro Buddiannau: https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/employment/managingofconflict/
2.3	Crëwr / Crewyr	unrhyw Staff neu Fyfyriwr sy'n greu, llunio neu ddyfeisio eitem o Eiddo Deallusol y mae'r Brifysgol yn berchen arni ac sydd wedi'i thrwyddedu i Gwmni Deillio.
2.4	Adran	unrhyw uned sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am ddarparu rhaglenni sy'n arwain at ddyfarnu graddau israddedig ac uwchraddedig a chymwysterau academaidd eraill y

		Brifysgol, a/neu am gynnal a hyrwyddo gweithgarwch ymchwil, cyfrannu at gyfnewid gwybodaeth neu unedau hunan-gyllido a/neu swyddogaethau eraill o'r fath gan gynnwys, ymhlith eraill, gwasanaethau proffesiynol i'r Brifysgol.
2.5	Sylfaenwyr	Staff ac unrhyw unigolyn neu unigolion eraill a fydd yn rhan o dîm rheoli cychwynnol Cwmni Deillio. Ar y cyfan, y staff sy'n Sylfaenwyr yw Crewyr yr Eiddo Deallusol sy'n sail i'r Cwmni Deillio.
2.5	Eiddo Deallusol	Bydd hyn yn cynnwys hawlfraint, patentau, hawliau dylunio, nodau masnach, enwau masnach, nodau gwasanaeth, hawliau cronfa ddata, hawliau bridwyr planhigion, hawliau perfformio, modelau cyfleustodau, gwybodaeth ymarferol arbennig, gwybodaeth gyfrinachol, a hawliau eiddo deallusol eraill, ym mhob achos p'un a ydynt wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru, gan gynnwys ceisiadau am unrhyw un o'r uchod, ac ar bob hawl neu fath o ddiogelwch mewn unrhyw awdurdodaeth.
2.6	Memoranda ac Erthyglau	dogfennau sy'n nodi'r manylion allweddol angenrheidiol ar gyfer corffori cwmni a'r rheolau sy'n rheoleiddio'r cwmni.
2.7	Staff	pob unigolyn a gyflogir yn rhan-amser neu amser llawn gan y Brifysgol, boed hynny mewn swydd academiaidd, ymchwil, technegol, gwasanaeth proffesiynol, academiaidd berthynol, neu swydd arall p'un a yw'n gyfnod penodol neu'n barhaol.
2.8	Cytundeb Cyfranddalwyr	cytundeb a wneir rhwng holl gyfranddalwyr cwmni, sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng y cyfranddalwyr, dull rheoli'r cwmni, perchnogaeth y cyfranddaliadau, a diogelwch y cyfranddalwyr.
2.9	Cwmni Deillio	cwmni newydd a ffurfiwyd i fasnacheiddio Eiddo Deallusol y mae'r Brifysgol yn berchen arni ac y mae gan y Brifysgol gyfranddaliad ynddo.
2.10	Myfyrwyr	myfyrwyr cofrestredig yn y Brifysgol, yn uwchraddedigion, israddedigion neu ar gynllun cyfnewid, yn graddio neu heb fod yn graddio, gan gynnwys uwchraddedigion yn y cyfnod o ysgrifennu canlyniadau eu hymchwil.
2.11	Taflen Delerau	dogfen nad yw'n rhwymo sy'n nodi'r telerau ac amodau allweddol ar gyfer ffurfio cwmni newydd, gan gynnwys y

fframwaith perchnogaeth a'r telerau yn ymwneud ag unrhyw Eiddo Deallusol sy'n cael ei drwyddedu i'r cwmni, neu hawliau eraill sy'n cael eu caffael gan y cwmni, wrth ei ffurfio.

- 2.12 Y Brifysgol Prifysgol Aberystwyth (Aberystwyth University).
- 2.13 Adnoddau'r Brifysgol Cyfleusterau neu adnoddau'r Brifysgol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):
- (i) gofod ac offer swyddfa, labordy a stiwdio;
 - (ii) caledwedd, meddalwedd a chymorth cyfrifiadurol;
 - (iii) gwasanaethau ysgrifenyddol;
 - (iv) cynorthwyywyr ymchwil, addysgu a labordy;
 - (v) cyflenwadau a chyfleustodau;
 - (vi) cyllid ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac addysgu, teithio, ac ad-daliadau eraill mewn arian, offer neu amser;
 - (vii) gwasanaethau cymorth canolog, er enghraifft y Swyddfa Gyllid, cymorth cyfreithiol neu gefnogaeth trosglwyddo technoleg.

3. Penderfyniad i greu Cwmni Deillio

- 3.1 Bydd y penderfyniad i ffurfio cwmni Deillio i fanteisio ar Eiddo Deallusol y Brifysgol (yn hytrach na thrwyddedu'r Eiddo Deallusol i drydydd parti, er enghraifft) yn cael ei ystyried fesul achos.
- 3.2 Efallai mai cwmni deillio yw'r llwybr addas i'r farchnad yn yr amgylchiadau canlynol:
- a) Mae modd cymhwyso'r Eiddo Deallusol mewn mwy nag un ffordd ac mewn mwy nag un marchnad
 - b) Mae hi'n rhy fuan yn natblygiad yr Eiddo Deallusol i ddenu trwyddedai ac y mae angen buddsoddiad i fanteisio'n llwyddiannus yn fasnachol
 - c) Cadarnhawyd bod galw mawr yn y farchnad ond nid oes llwybr arall i mewn i'r farchnad (er enghraifft trwy drwyddedu)
 - d) Hoffai'r Brifysgol gyfuno Eiddo Deallusol â thrydydd parti ac mae'r ddwy ochr yn cytuno mai Cwmni Deillio yw'r ffordd orau i gyflawni hyn.
- 3.3 Bydd angen i'r sylfaenwyr ddangos eu bod yn gallu ymrwymo amser ac egni i'r fenter newydd er mwyn i'r Brifysgol gefnogi penderfyniad i greu Cwmni Deillio. Hefyd, bydd angen iddynt arwain y gwaith o greu achos busnes i'w gyflwyno i randdeiliaid mewnol er mwyn cael cymeradwyaeth i'r Cwmni Deillio.
- 3.4 Gwneir y penderfyniad ffurfiol i ffurfio Cwmni Deillio gan YBA ar ôl ystyried ffactorau gan gynnwys cynllun masnacheiddio, effaith bosibl ar enw da a goblygiadau safon y Gymraeg.

- 3.5 Os yw'r Cwmni Deillio yn cynnwys Eiddo Deallusol trydydd parti (er enghraifft o brifysgol arall), bydd angen cytundeb y trydydd parti hefyd.
- 3.6 Gall y bydd gan sylfaenwyr swyddogaethau gwahanol yn y Cwmni. Bydd angen i'r Pennaeth Adran perthnasol gytuno ar bob penderfyniad sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn, ac yn benodol y defnydd o amser y Brifysgol ar gyfer gweithgareddau'r Cwmni.
- 3.7 Rhaid i staff sy'n berchen ar gyfranddaliadau mewn Cwmni Deillio sicrhau bod unrhyw Wrthdaro Buddiannau a allai godi yn cael eu rheoli yn unol â pholisi'r Brifysgol ynglŷn â Gwrthdaro Buddiannau.

4. Y drefn ar gyfer creu Cwmni Deillio

- 4.1 Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud mewn egwyddor i ffurfio cwmni deillio, bydd YBA yn gweithio gyda'r Sylfaenwyr, ac os yw'n briodol, gyda pherchnogion Eiddo Deallusol eraill trydydd parti, i gytuno ar Daflen Delerau sy'n diffinio'r cynnyrch a'r gwasanaethau y bydd y cwmni Deillio yn eu datblygu, y fframwaith rheoli arfaethedig, manylion cyfranddaliadau, a thelerau Eiddo Deallusol y Brifysgol a fydd wedi'u trwyddedu i'r cwmni. Gall y Daflen Delerau hefyd roi manylion yr amodau ar gyfer rhoi hawliau i ddefnyddio Adnoddau eraill y Brifysgol.
- 4.2 Bydd y cwmni newydd yn cael ei gorffori trwy ddefnyddio cyfres safonol o Femoranda ac Erthyglau. Caiff cyfranddaliadau eu dosbarthu i Sylfaenwyr ac i'r Brifysgol trwy Gytundeb Cyfranddeiliaid safonol y cytunir arno.
- 4.3 Bydd angen i staff sy'n ystyried sefydlu cwmni deillio chwilio am gyngor cyfreithiol eu hunain.

5. Cyfranddaliadau

- 5.1 Bydd canran y cyfranddaliad sy'n eiddo i'r Brifysgol wrth ffurfio'r Cwmni Deillio yn cael ei drafod rhwng YBA a'r Sylfaenwyr.
- 5.2 Ni fydd y crëwr/crewyr yn elwa o incwm a gynhyrchir trwy werthu na gwaredu cyfranddaliadau sy'n eiddo i'r Brifysgol mewn Cwmni Deillio.

6. Hawliau i Eiddo Deallusol y Brifysgol

- 6.1 Bydd Eiddo Deallusol y Brifysgol sydd ei angen ar y Cwmni Deillio yn cael ei drwyddedu i'r cwmni ar delerau masnachol a drafodir fesul achos.
- 6.2 Bydd telerau'r drwydded yn ystyried natur yr Eiddo Deallusol, cwmpas y drwydded a lefel y buddsoddiad y mae'r Brifysgol wedi'i wneud wrth ddiogelu a datblygu'r Eiddo Deallusol.

- 6.3 Ar ôl cyflawni cerrig milltir penodol y cytunwyd arnynt, o ran datblygu cynnyrch, cynhyrchu refeniw neu fuddsoddi, efallai y bydd y Brifysgol yn cytuno i bennu'r Eiddo Deallusol i'r Cwmni Deillio. Pe byddai trefniant o'r fath yn ei cael ei wneud byddai'n rhaid i'r cwmni roi yn ôl i'r Brifysgol drwydded i'r Eiddo Deallusol i ddibenion addysgu ac ymchwil academiaidd ac ar gyfer manteisio masnachol y tu hwnt i'r meysydd y cytunwyd arnynt.
- 6.4 Caiff dosbarthiad yr incwm a roddir i Gwmni Deillio o drwyddedau ei wneud yn unol â Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol.
- 6.5 Ni fydd y cwmni deillio yn cael defnyddio enw, logo, brandio na nodau masnach y Brifysgol heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

7. Bwrdd Cyfarwyddwyr

- 7.1 Cyhyd ag y bydd y Brifysgol yn gyfrandaliwr yn y Cwmni, bydd ganddi hawl i benodi cyfarwyddwr neu arsylwr ar fwrdd y cwmni.
- 7.2 Pe byddai'r Brifysgol yn dewis peidio â phenodi cyfarwyddwr neu arsylwr, fe fydd yn cadw'r un hawliau i dderbyn papurau'r bwrdd ag y byddai pe bai wedi penodi cyfarwyddwr neu arsylwr.

8. Datrys Anghydfod

- 8.1 Dylai unrhyw faterion llosg, anghydfod, hawliadau neu unrhyw eglurhad sydd ei angen ynghylch unrhyw un o ddarpariaethau'r Polisi hwn gael eu cyfeirio at Gyfarwyddwr YBA yn y lle cyntaf, a fydd yn ei dro yn cysylltu â'r Pennaeth Adran perthnasol neu un a enwebir i ystyried y mater.
- 8.2 Os na chytunir ar benderfyniad mewn cyfnod rhesymol o amser, gellir cyfeirio'r anghydfod at y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi a fydd yn gwneud penderfyniad.
- 8.3 Pe byddai'r partiön yn cael cyngor allanol mewn anghydfod o'r fath, y sawl sy'n ceisio'r cyngor fydd yn talu'r costau amdano. Bydd y penderfyniad yn un terfynol a bydd yn rhwymo'r holl bartiön dan sylw.

9. Gweithredu

Ni fydd gan y Polisi hwn effaith ôl-weithredol. Daw'r Polisi i rym ar 11 Gorffennaf 2023.

10. Cofnod Adolygu

Bydd y Polisi yn cael ei reoli gan YBA a'i gymeradwyo gan y Weithrediaeth. Bydd yn cael ei adolygu'n achlysurol mewn ymgynghoriad â chyrff priodol y Brifysgol.

Dyddiad Creu/Adolygu	Newidiadau	Adolygwyd gan: y Weithrediaeth	Cymeradwywyd gan
Mis Mawrth 2023	Safonau'r Gymraeg wedi'u mewnosod	25 Ebrill 2023	11 Gorffennaf 2023

DIWEDD